



Fideofflworosgopi: Pelydr-X o Symudiadau'ch Taflod Feddal Wrth Lefaru

Rhwydwaith Gwefus a Thaflod Hollt Gogledd Orllewin Lloegr, Ynys
Manaw a Gogledd Cymru

Beth yw Fideofflorosgopi?

Pelydr-X sy'n symud yw Fideofflorosgopi y gellir ei recordio ar DVD. Mae'n gadael i ni weld pa mor dda mae'ch taflod feddal (to eich ceg) yn symud pan fyddwch yn siarad, ac a yw'n gwahanu cefn eich trwyn a'ch ceg. Union yr un weithdrefn sy'n cael ei dilyn yn achos plant ac oedolion fel ei gilydd.

Pam fod angen Fideofflorosgopi arna i?

Mae Therapydd Iaith a Lleferydd Arbenigol wedi asesu eich lleferydd ac mae'n meddwl efallai nad yw'ch taflod feddal yn symud yn ddigon da i wahanu eich trwyn o'ch ceg wrth i chi lefaru. Mae'r ymchwiliad yn rhoi golwg da ar beth sy'n digwydd i'ch taflod feddal a gwddf wrth i rywun siarad. Bydd yn helpu'r Therapydd Iaith a Lleferydd a Llawfeddyg Hollt i benderfynu gyda chi beth yw'r ffordd orau o reoli eich anawsterau â lleferydd.

Beth mae cael Fflworosgopi'n ei olygu?

Byddwch yn mynd i'r Adran Pelydr-X, lle bydd Radiolegydd (doctor sy'n arbenigo mewn pelydrau-X) a Therapydd Iaith a Lleferydd Arbenigol yn eich gweld.

Byddwch yn yr ystafell pelydr-X am oddeutu 5-10 munud. Byddwch yn effro ar gyfer hyn. Mae yna ddau fath o belydrau-X:

1. Golwg o'r ochr:

Ar gyfer hwn, bydd gofyn i chi sefyll neu eistedd ar stôl. Bydd y camera pelydr-X wrth eich ochr ac, er y bydd yn symud o'ch amgylch i ddod o hyd i'r llun gorau posibl, ni fydd yn eich cyffwrdd. Unwaith mae'r camera yn y lleoliad gorau, bydd angen i chi gadw eich pen yn llonydd iawn. Yna bydd gofyn i chi siarad. Fel arfer, bydd hyn yn golygu cyfrif a chopio seiniau penodol, geiriau a brawddegau.



Dyma lun o Gabrielle yn eistedd wrth y camera pelydr-X, mae hi'n llefaru geiriau i mewn i'r meicroffon.

2. O'r uwchben:

Ar gyfer hwn, bydd gofyn i chi naill ai eistedd ymlaen a gwyro eich pen ymlaen ynteu orwedd i lawr ar fwrdd pelydr-X arbennig. Bydd swm bach iawn o lifyn arbennig (bariwm) yn cael ei roi yn eich trwyn a bydd gofyn i chi arogli yn ddwfn. Nod yw yw gorchuddio eich taflod â llifyn fel ei fod yn dangos yn glir ar y pelydr-X. Eto, bydd gofyn i chi wneud ychydig o gyfrif a chopïo seiniau, geiriau a brawddegau penodol.



Yma mae Gabrielle yn gorwedd wrth y camera pelydr-X yn siarad i mewn i'r microffon.

Beth fydd defnydd y pelydrau-X?

Bydd y canlyniadau yn helpu i gynllunio unrhyw driniaeth allai fod ei hangen arnoch yn y dyfodol. Efallai y bydd rhai pobl yn cael budd o lawdriniaeth i wella symudiad eu taflod feddal a/neu helpu eu taflod a gwddf i weithio gyda'i gilydd i wahanu eu trwyn a cheg wrth lefaru. Efallai y bydd angen ymchwiliadau pellach ar rai pobl (fel nasendosgopi) i helpu i wneud y penderfyniadau hyn. Efallai ni fydd angen unrhyw ymchwiliad neu driniaeth bellach ar rai ohonoch chi.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd y Therapydd Iaith a Lleferydd Arbenigol a'r Radiolegydd yn mynd â'r DVD i ffwrdd i'w astudio i weld pa mor dda mae'ch taflod feddal a gwddf yn gweithio gyda'i gilydd i wahanu eich trwyn a cheg pan fyddwch yn siarad. Bydd y Therapydd Iaith a Lleferydd a'r Llawfeddyg Hollt Ymgynghorol yn edrych ar y pelydrau-X ac yn trafod sut i helpu i wella sain eich lleferydd.

Byddwn yn trafod y canlyniadau ac awgrymiadau ar gyfer triniaeth gyda chi yn eich apwyntiad nesaf yn y clinig.

Beth yw risgiau cael Fideofflorosgopi?

Mae risg cael eich dinoethi i ymbelydredd (pelydrau-X) o'r cyfarpar yn fach iawn. Ni chaniateir i ferched beichiog a phlant eraill (gan gynnwys brodyr a chwiorydd) ddod i mewn i'r ystafell pelydr-X gyda chi. Os bydd gennych unrhyw bryderon o ran y weithred hon, mae croeso i chi ein ffonio. Mae'r rhifau ar dudalen olaf y daflen hon.

Awgrymiadau/Sylwadau

Mae'r staff yma i helpu ac mae'n bwysig eu bod yn cael gwybod os bydd gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y gwasanaethau rydych wedi'u derbyn. Os dymunwch siarad ag aelod o'r tîm hollt ffoniwch ni ar:

Lerpwl: 0151 252 5204
Manceinion: 0161 701 9080
dydd Llun i ddydd Gwener 9.00 am hyd 5.00 pm.

Neu gallwch gysylltu â'r Gwasanaeth Cyswllt a Chyngor Cleifion (PALS):

PALS Manceinion: 0161 701 8700, dydd Llun i ddydd Gwener 9.00 am hyd 4.00 pm, e-bost childrens.pals@cmft.nhs.uk

PALS Lerpwl: 0151 252 5374/5161, dydd Llun i ddydd Gwener 9.00 am hyd 4.30 pm, e-bost PALS@alderhey.nhs.uk

Gwybodaeth a chysylltwyr allanol

Y Gymdeithas Gwefus a Thafnod Hollt (CLAPA)

Llawr Cyntaf, Green Man Tower, 332b Goswell Road,
Llundain EC1V 7LQ

Ffôn: 0207 833 4883 • Ffacs: 0161 701 9007 E-bost: info@clapa.com •
gwefan: www.clapa.com

Changing Faces

The Squire Centre, 33-37 University Street,
Llundain, EC1V 7LQ

Ffôn: 0845 4500 275 • Ffacs: 0845 4500 276
E-bost: info@changingfaces.org.uk gwefan:
www.changingfaces.org.uk

Mae'r wybodaeth hon ar gael yn Saesneg, pe baech yn dymuno hynny.

This information is available in English, if preferred.

Mae taflenni gwybodaeth am ein gwasanaeth ar gael i'w llwytho i lawr o wefannau Ysbyty Plant Alder Hey ac Ysbyty Plant Brenhinol Manceinion:

www.alderhey.com/services/cleftpalate.asp

www.cmft.nhs.uk/childrens-hospitals/our-services/cleft-lip-and-palate.aspx

© Hawlfraint Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Ysbytai Prifysgol Canol Manceinion

TIG 31/11 Cynhyrchwyd Mehefin 2011 Dyddiad Adolygu Mehefin 2013

(SF Taylor CM12988)